3.5.4 Ways of strengthening devolved government input into UK-EU governance arrangements include:

- Greater clarity regarding the guiding principles driving intergovernmental relations and the status of devolved governments within the arrangements. It is important to clarify the status of the Memorandum of Understanding which includes the Concordat on Co-ordination of European Union Policy Issues as this is currently unclear. Relatedly, there is a lack of clarity regarding the concordat's relationship to the latest principles for intergovernmental relations established by the Review of Intergovernmental Relations and the status of those principles in the context of EU related issues vis a vis the direction provided by Lord Frost's 2021 letter.
- Increased consistency and formalisation of devolved government representation across the intergovernmental arrangements in line with their status within the post-1999 arrangements.
- Greater involvement of devolved legislatures in scrutinising intergovernmental relations would also be beneficial. This is a general point also important to more specific repercussions in the context of devolved input into the UK's relations with the EU. The treaty text only refers to the UK Parliament as regards the UK-EU Parliamentary Partnership Assembly (PPA). The role of UK devolved legislatures could be formalised and strengthened beyond the current provision of attending meetings as observers who lack speaking and voting rights during the plenary sessions. It is positive that Senedd elected members have been invited to attend PPA meetings and there is potential to evolve these arrangements to formalise enabling devolved legislature representatives to more actively participate in the meetings, e.g. contribution to work in groups and specific items on devolved legislature engagement on the agenda.

3.6 Wales' external relations with the EU

Post-1999, the EU Concordat enabled devolved governments to able set up Brussels offices and were considered as part of the UKRep organisational structure. The arrangements enabled the Welsh Government to develop its own relationships with EU institutions, membership and activity in EU inter-regional networks and other European network alongside the access and engagement via UK structures.

²³ UK Parliament, 'Welsh Parliament Legislation, Justice and Constitution Committee: Submission to the House of Lords, European Affairs Committee' (2022), p. 4.

3.6.1 Post-Brexit, the Welsh Government has set out an agenda of seeking to maintain its engagement with these structures in Brussels, including expanding its network of offices in Europe.²⁴ It faces an additional requirement that devolved governments keep the UK Government informed of ministerial or senior official level contact with EU institutions or member states to ensure a coordinated response as stipulated in Lord Frost's letter.²⁵

3.6.2 The UK Government can potentially constrain the external activities of UK devolved governments. A recent development is that the UK Government is keeping the overseas activity of the SNP Scottish Government 'under close review'²⁶ and issued guidance to Heads of UK Missions on 'Working with the Scottish Government internationally'. A particular focus is devolved ministerial visits overseas. Revised requirements are indicated to include the need for greater information gathering and sharing within the UK Government on Scottish ministerial visits, requiring host governments to coordinate requests for devolved ministerial visits via FCDO, and UK diplomats to explain the reserved and devolved powers distinction to host governments.²⁷

3.6.3 The steps taken reflect the extent of UK Government concerns that Scottish Government international engagement is being used to pursue its independence agenda. Accusations include Scottish Government activities internationally overstepping the boundary into reserved matters, particularly the constitution, and undermining UK Government policy positions. It is viewed by the Scottish Government as damaging and limit its international activity.²⁸

3.6.4 This example is somewhat exceptional, reflecting the extent of strained relations between the UK Conservative Government and Scottish SNP Government. However, whilst the degree to which the latest guidance impacts upon Welsh Government ministerial activity internationally and in relation to the EU and European governments is unclear, it is instructive of the UK Government's potential to constrain the external relations of the UK's sub-state governments.

3.6.4 Overall, this recent development reminds us that the flexibility of the arrangements provides the potential for central government to take steps place additional requirements on devolved governments and to constrain sub-state external relations activity under particular circumstances. This underlines the vulnerability of current sub-state external relations arrangements and the repercussions of their non-binding status. It points to the value of considering a firmer basis for these arrangements.

²⁴ See Minto, R., Rowe, C., Royles E. 'Sub-states in transition: changing patterns of EU paradiplomacy in Scotland and Wales, 1992–2021' *Territory, Politics, Governance* (2023).

²⁵ Lord Frost, 'Letter from Lord Frost on engagement regarding EU matters' (UK Government, Cabinet Office, 27 May 2021).

²⁶ UK Parliament, 'Hansard: Scottish Government Ultra Vires Expenditure, Volume 828: debated on Thursday 9 March 2023' (2023), Lord Offord of Garvel.

²⁸ Scottish Government, 'Correspondence: Protecting Scotland's interests: letter to the UK Foreign Secretary, 1 May 2023' (2023).

Eitem 4.1

SL(6)364 – Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasportau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasportau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid") a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018 ("y Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid") (gyda'i gilydd, "Rheoliadau 2018"). Mae'r diwygiadau yn addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2018 am wasanaethau a ddarperir ym maes iechyd anifeiliaid gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i adlewyrchu costau llawn y gwasanaethau hynny.

Mae rheoliad 2(4) yn diwygio'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i ddirymu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am ddogfennau adnabod gwag a gwasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â darparu dogfennau adnabod pasbort anifeiliaid anwes.

Mae rheoliad 2(5) yn diwygio'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Mae'r ffioedd, pan gynyddir hwy, yn cynyddu yn ôl y codiad cyfartalog canolig o 41% o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, a'r ail gynydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(6) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau salmonella. Mae'r ffioedd, pan gynyddir hwy, yn cynyddu yn ôl y codiad cyfartalog canolig o 53% o'r ffioedd presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, a'r ail gynydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(7) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig o 21% o'r ffioedd presennol. Mae rheoliad 3(7)(a) yn cynyddu ffioedd cynllun iechyd dofednod penodol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae'r ail gynydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny. Mae rheoliad 3(7)(b) yn cynyddu gweddill y ffioedd cynllun iechyd dofednod penodedig mewn un cam, ac mae'r cynnydd yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(8) i 3(10) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau bridio artiffisial. Mae'r ffioedd yn cynyddu yn ôl y codiad cyfartalog canolig o 65% o'r ffioedd



presennol mewn dau gam: mae'r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, a'r ail gynydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(11) yn diwygio'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â safleoedd rheoli ar y ffin. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig o 34% o'r ffioedd presennol mewn un cam, ac mae'r cynnydd yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol pellach i Reoliadau 2018.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Nodir y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliad 3(2)(a) yn cyflwyno diwygiad i'r diffiniad o "border inspection post" yn y Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid. O ganlyniad i'r diwygio hwn, yn y testun Cymraeg, ni fydd y diffiniad newydd o "safle rheoli ar y ffin" bellach yn ymddangos yn y lle cywir yn nhrefn yr wyddor yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid.

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn y rhaglith, ar ddiwedd y paragraff cyntaf ar dudalen 3, diffinnir "Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984" fel "Deddf 1984", ond ni ddefnyddir y diffiniad yn unman arall yn y Rheoliadau.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae Rheoliad 2(5)(a) a (b)(iii) yn disodli colofnau 2 a 3 newydd yn Nhablau 1 a 2 yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid. Roedd colofnau gwreiddiol 2 a 3 yn cynnwys "Colofn 2" a "Cholofn 3" ar ben y colofnau yn y rhes gyntaf, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y colofnau 2 a 3 newydd. Dylid nodi hefyd bod y colofnau newydd, fel y'u mewnosodwyd gan y Rheoliadau hyn, wedi'u fformatio'n wahanol i'r Tablau gwreiddiol a'r colofnau 1 gwreiddiol, sy'n aros. Mae'r colofnau newydd wedi'u gwahanu gan linellau tra nad yw'r Tablau gwreiddiol yn cynnwys llinellau o'r fath.



4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 3(8)(a)(iii)(aa) yn diwygio'r Tabl yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid. Yn y testun Saesneg, mae'r geiriau "an EC" yn ymddangos ddwywaith yn chweched rhes o Golofn 1, felly nid yw'r disgrifiad yn rheoliad 3(8)(a)(iii)(aa) yn caniatáu ar gyfer gwahaniaethu rhwng y ddau achos, heb gynnwys testun ychwanegol.

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 3(11)(c) yn diwygio Tabl 2 yn Atodlen 6 i'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid. Nid yw nodyn tabl (2) yn rhan o Golofn 2, mae'n nodyn ar gyfer Tabl 2 yn ei gyfanrwydd, felly ni ddylai'r nodyn hwn fod wedi'i gynnwys yn yr amnewidiad ar gyfer Colofn 2. Efallai y byddai wedi bod yn fwy priodol diwygio nodyn tabl (2) mewn darpariaeth ar wahân. Mae'r atalnodi hefyd yn anghywir gan fod y dyfynodau terfynol yn ymddangos ar ôl geiriau olaf Colofn 2, sy'n awgrymu mai dim ond y testun yng Ngholofn 2 sy'n cael ei ddiwygio, ac nid oes atalnodi ar gyfer nodyn (2) y tabl newydd.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

6. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud addasiadau i'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid ac Iechyd Planhigion, o dan Reoliadau 2018.

7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Yn y rhaglith, dyfynnir adran 10 o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984 fel un o'r pwerau galluogi. Mae'r pwerau yn adran 10 yn amrywio, felly byddai manylu ar yr is-adrannau perthnasol yn rhoi gwell cymorth i'r darlennydd. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid yn nodi adran 10(1) a (3)(c) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984.



8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae rhaglith y Rheoliadau yn datgan eu bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"). Mae paragraff 1(8) yn ymwneud â rheoliadau o dan Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Atodlen 4 i Ddeddf 2018. Nid yw perthnasedd paragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018 i'r Rheoliadau hyn yn dod yn amlwg oni bai ei fod yn cael ei ddarllen ar y cyd â pharagraff 12 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018. Byddai cyfeiriad at baragraff 12 o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, mewn troednodyn neu fel arall, yn gwella hygyrchedd y gyfraith.

9. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol o dan y pennawd 'Ymgynghoriad':

*Cyhoeddwyd cyfathrebiadau cychwynnol APHA ar GOV.UK ar 18 Awst 2022.
Cyhoeddwyd rhagor o wybodaeth ar 10 Mawrth 2023.*

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau a fu ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ai peidio.

Nid oeddem yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth bellach dyddiedig 10 Mawrth 2023. Nid yw ddogfen gyfathrebu dyddiedig 18 Awst 2022 ar gael yn hawdd ar gov.uk, a byddai darparu lincs yn y Memorandwm Esboniadol o gymorth i'r darlennydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 1 i 5 a 7 i 9.

Cynghorwyr Cyfreithiol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
21 Mehefin 2023**



Eitem 5.1

SL(6)362 - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010"). Mae Atodlen 19 yn enwi'r awdurdodau cyhoeddus hynny sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf 2010, sy'n darparu ei bod yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i:

- (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf 2010 neu o dan y Ddeddf honno;
- (b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno, a
- (c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010 i ddisodli Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, wedi i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") gael ei phasio. Daw'r Rheoliadau i rym ar 4 Medi 2023 ond hyd nes bydd adran 23 o Ddeddf 2022 yn dod i rym, bydd y cyfeiriad at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn Neddf 2010 yn cael ei ddarllen fel pe bai'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Y drefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Craffu Technegol

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

- 1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.**

Mae dau bwynt i'w nodi yn y prif nodyn i'r Rheoliadau:-



- a) nid yw'r testun Saesneg yn defnyddio'r prif nodyn safonol ar gyfer offerynnau statudol cadarnhaol drafft. O ganlyniad, mae'r geiriau "for approval" yn ymddangos ddwywaith yn y frawddeg; a
- b) mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn y ddau brif nodyn gan nad oes cyfieithiad o'r geiriau "for approval by resolution of Senedd Cymru" yn y testun Cymraeg.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Nid yw Rheoliad 2(b), yn nodi'n bendant ble y dylid cynnwys yr enw newydd yn Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nid yw'n briodol dweud bod testun yn cael ei fewnosod "yn y man priodol" oni bai bod enwau'r holl gyrff yn cael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor, a'i bod yn glir ble y dylid mewnosod yr enw newydd. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau blaenorol i'r un rhestr o gyrff addysgol eraill wedi mewnosod enwau'r cyrff newydd ar ddiwedd y rhestr. O ganlyniad, nid yw'r holl enwau a gofnodir yn y rhestr bresennol yn nhrefn yr wyddor felly gallai ansicrwydd godi ynghylch ble i fewnosod y cofnod newydd ar ddechrau'r rhestr neu ar ddiwedd y rhestr.

Mae diwygiadau blaenorol a wnaed i Ran 2 o Atodlen 19 i gyd wedi disgrifio lleoliad y mewnosodiad drwy nodi "O dan yr is-bennawd "Cyrff addysgol eraill"";

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 19, ond ni yw'n nodi mai hon yw Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010. Mae rheoliad 3 yn cyfeirio at Ddeddf 2022 ac felly mae'n bosibl y byddai person sy'n darllen rheoliad 3 ar ei ben ei hun yn ansicr ynglŷn â'i ystyr. Mae'r cyfeiriad at Ddeddf 2010 hefyd ar goll yn y pennawd i reoliad 2.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 4 Medi 2023, er bod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wedi'i sefydlu ar 15 Rhagfyr 2022. Gofyniir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pam mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud i ddod i rym ar 4 Medi 2023 yn hytrach na 15 Rhagfyr 2022 neu ym mis Ebrill 2024, sef pan ddaw adran 23 o Ddeddf 2022 i rym, yn ôl y Memorandwm Esboniadol.

5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Mae paragraff 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio fel a ganlyn at ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus:

...hynny yw'r ddyletswydd 'sylv dyladwy' i sicrhau bod hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu...

Mae'r disgrifiad hwn yn hepgor y drydedd elfen yn nyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sef i roi sylw dyledus i'r angen i feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Os yw darpariaeth mewn Deddf i'w disgrifio mewn Memorandwm Esboniadol, mae'n bwysig gwneud hyn yn fanwl gywir er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth. Gofynnir i Lywodraeth Cymru felly egluro pam mae'n cyfeirio dim ond at ddwy elfen o'r ddyletswydd, ac nid y drydedd elfen.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau adrodd.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 38

Legislation, Justice and Constitution Committee

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023

Pwynt Craffu Technegol 1: Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ddwyn hyn i'n sylw. Cydnabyddwn nad yw'r ddau brif nodyn yn dilyn y geiriad safonol a byddwn yn ymdrechu i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r ddau yn gwneud natur yr offeryn a pha un o weithdrefnau Senedd Cymru sydd i'w dilyn yn glir, a chânt eu dileu cyn i'r offeryn gael ei wneud.

Pwynt Craffu Technegol 2: Rydym yn cytuno y byddai'r ddarpariaeth, yn ddelfrydol, wedi nodi'n fanylach ble y dylid mewnosod y testun. Fodd bynnag, mae "yn y lle priodol", ynghyd â theitl y corff sydd i'w fewnosod (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), yn ei gwneud yn glir y dylid ei osod o dan yr is-bennawd "Other educational bodies". Roedd y rhestr wreiddiol yn yr is-bennawd hwnnw yn nhrefn yr wyddor, ond rydym yn cydnabod nad yw diwygiadau blaenorol i'r rhestr honno wedi cael eu gwneud yn nhrefn yr wyddor. Fodd bynnag, mae'n glir bod y term i'w fewnosod yn Atodlen 19 ac o fewn yr is-bennawd "Other educational bodies"; ni fydd safle'r term ar ddechrau neu ar ddiwedd y rhestr yn yr is-bennawd hwnnw yn cael unrhyw effaith ar ystyr cyfreithiol y ddarpariaeth ac, ar y sail honno, nid ydym yn cynnig diwygio'r ddarpariaeth hon.

Pwynt Craffu Technegol 3: O gofio mai'r unig ddiwygiadau y mae'r OS hwn yn eu gwneud yw'r rheini i Ran 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nid ydym o'r farn bod unrhyw berygl i berson sy'n darllen rheoliad 3 gael ei gamarwain (nodwn, gyda llaw, nad oes Atodlen 19 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022). Fodd bynnag, rydym yn cytuno y byddai cynnwys cyfeiriad penodol at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwneud y ddarpariaeth yn fwy eglur, a byddem yn cynnig gwneud y diwygiad hwnnw cyn i'r offeryn gael ei wneud.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: Cafodd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ei sefydlu fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022 fel y gellid penodi'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd. Ar yr adeg honno, nid oedd y Prif Swyddog Gweithredol na'r lleiafswm o aelodau cyffredin wedi cael eu penodi (fel sy'n ofynnol gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022). Gan nad oedd y Comisiwn wedi'i gyfansoddi'n llawn ar 15 Rhagfyr 2022, nid oedd yn gallu arfer unrhyw swyddogaethau.

Bydd y Comisiwn yn cael ei sefydlu'n llawn ar 4 Medi 2023 pan fo'r Prif Swyddog Gweithredol ac o leiaf bedwar aelod cyffredin yn dechrau yn eu swyddi; dyma pryd y bydd y Comisiwn, yn ddarostyngedig i wneud ail orchymyn cychwyn dros yr haf, yn gallu arfer swyddogaethau penodol.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ym mis Medi 2023, yn hytrach na mis Ebrill 2024, er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o'r pwynt y gall arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 5: Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ddwyn hyn i'n sylw. Caiff y Memorandwm Esboniadol ei dynnu'n ôl a'i ailosod gyda'r diwygiadau angenrheidiol.

Ein cyf/Our ref: MA/CG/1651/21

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@Senedd.Cymru

22nd Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mai a'r gwaith y mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi'i wneud i lunio'r adroddiad ar faterion trawsbynciol sy'n effeithio ar y rhaglen Fframweithiau Cyffredin.

Mae gan Fframweithiau Cyffredin y potensial i fod yn fecanweithiau llywodraethu parhaus, hyblyg a chynyddol arwyddocaol ar gyfer y meysydd polisi a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfraith yr UE. Gallant helpu i hwyluso aliniad polisi a rheoli gwahaniaethau rheoleiddiol rhwng y pedair llywodraeth. Mae monitro'n effeithiol y materion hirdymor a materion sy'n dod i'r amlwg ar lefel rhaglen, ac sy'n effeithio ar y rhaglen, yn rhan annatod o sicrhau bod Fframweithiau Cyffredin yn dod yn fodel ar gyfer cydweithio rhynglywodraethol da.

Ym mis Chwefror, cadeiriais gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol lle cytunodd Gweinidogion (a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon) ar bwysigrwydd parhau i adolygu materion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar fframweithiau. Mae swyddogion yn monitro effaith unrhyw faterion sy'n effeithio ar y rhaglen ac yn ceisio eu lliniaru, a byddant yn parhau i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Yng nghyfarfod mis Chwefror, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol hefyd ar fodel ar gyfer adrodd yn y dyfodol i bwyllgorau deddfwrfeydd ar ôl cwblhau'r fframweithiau.

Fel y byddwch yn ymwybodol o ohebiaeth flaenorol, ni allaf ymateb yn ffurfiol i argymhellion pwyllgorau nes bod y gwaith craffu wedi'i gwblhau gan bob un o bedair deddfwrfa'r DU. Mae'r sefyllfa hon wedi cael ei mabwysiadu gan bedair llywodraeth y DU. Mae'n cyd-fynd â'r ysbryd gweithio pedair gwlad a'r consensws sy'n ymgorffori'r rhaglen Fframweithiau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyffredin. Byddaf yn ysgrifennu atoch unwaith eto unwaith y bydd yr argymhellion wedi dod i law gan holl ddeddfwrfeydd y DU a'r pedair llywodraeth wedi dod i gytundeb ar y newidiadau sydd i'w gwneud i'r fframweithiau mewn ymateb i'r rhain.

Hoffwn ddiolch eto i'r Pwyllgor am ei rôl barhaus wrth oruchwylio'r Fframweithiau Cyffredin. Edrychaf ymlaen at y ddadl ar fframweithiau ar 12 Gorffennaf.

Yn gywir,



Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol
DYDDIAD	20 Mehefin 2023
GAN	Mick Antoni AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Cynrychiolais Llywodraeth Cymru ym mhedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 17 Mai.

Cafodd [cyd-hysbysiad](#) (Saesneg yn Unig) ei gyhoeddi yn dilyn y cyfarfod, sy'n cynnwys manylion llawn y rhai eraill oedd yn bresennol. Ar yr agenda roedd: Cyflwyniadau; Parthau Buddsoddi; Rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth y DU gan gynnwys Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir; a'r Fframweithiau Cyffredin.

Fel y dywedir yn y cyd-hysbysiad, nodwyd gan y Pwyllgor y gwaith dadansoddi trawslywodraethol i bennu'r hyn sy'n ysgogi anweithgarwch economaidd ymhlith unigolion ynghyd â'r gwahaniaethau ledled y DU. Nodwyd hefyd y cydweithio ar draws y grwpiau rhyngweinidogol ar y pwysau costau byw. Pwysleisiais fod costau byw yn fater hanfodol bwysig i bob llywodraeth. Mae angen inni sicrhau bod y camau pellach angenrheidiol yn cael eu pennu a'u cyflwyno ar gyfer gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn gyflym. Dylai'r penderfyniadau hyn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd a busnesau, sy'n parhau i wynebu pwysau difrifol yn sgil chwyddiant a'r amodau economaidd ehangach heriol. Wrth i waith fynd rhagddo yn y maes hwn, pwysleisiwyd, oherwydd nad oes grŵp rhyngweinidogol ffurfiol sy'n gysylltiedig â phortffolio'r Adran Gwaith a Phensiynau, fod bwloch yn strwythurau'r cysylltiadau rhynglywodraethol y cytunwyd arnynt ar y cyd. Gofynnais inni ystyried gyda'n gilydd sut y gallwn fynd i'r afael â'r bwloch hwnnw.

Ar fater y Parthau Buddsoddi, roeddwn yn gwbl glir, fel yn achos y Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru, fod rhaid i'r cynnydd ar agenda'r Parthau Buddsoddi gyd-fynd â'n hamcanion a'n blaenoriaethau presennol, a'r cyfeiriad cyffredinol a bennwyd yn ein Cenhadaeth Economaidd.

Ar fater Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, cydnabûm fod gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil, sy'n golygu dileu'r cymal machlud ac na fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn mynd yn ddi-rym yn awtomatig ar ddiwedd y flwyddyn mwyach felly, yn gam i'r cyfeiriad cywir. Bydd y

newidiadau yn golygu nad oes posibilrwydd y bydd deddfwriaeth bwysig mewn meysydd fel cyflogaeth, yr amgylchedd a diogelu defnyddwyr yn diflannu drwy amryfusedd a heb fod yn destun craffu gan y deddfwrfeydd. Fodd bynnag, mynegais unwaith eto ein pryderon ynghylch dull Llywodraeth y DU mewn perthynas â phwerau cydredol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd, a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd. Rwyf wedi bod yn gyson glir, os oes unrhyw bwerau sy'n arferadwy gan Weinidogion Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, yna dylent, fel gofyniad sylfaenol, fod yn amodol ar gael cydsyniad cadarnhaol Gweinidogion Cymru ymlaen llaw, a dylid ymdrin â hyn ar wyneb y Bil.

Ar fater y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio, codais y pwynt bod y ddarpariaeth ar gyfer pennu cenadaethau ffyniant bro, y metrigau a'r targedau cysylltiedig ac adrodd ar gynnydd yn Rhan 1 o'r Bil yn cynrychioli ymyrraeth amhriodol yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn parhau'n barod i weithio gyda Llywodraeth y DU ar Ran 6 o'r Bil. Fodd bynnag, dim ond os ydyn nhw'n ymrwymo i newid y dull presennol sy'n cynnwys pwerau cydredol ar gyfer Gweinidogion Llywodraeth y DU – pwerau y gellir eu harfer heb gydsyniad Gweinidogion Cymru – y gallwn gyflawni hyn.

Dywedais unwaith eto fod y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) yn ymosodiad diangen ac annheg ar hawliau gweithwyr ac ar undebau llafur. Mae'n fyrbwyll, mae'n annoeth, mae'n annelwig. Ni fydd y Bil hwn yn datrys anghydfodau diwydiannol a gall suro'r berthynas rhwng diwydiannau ym mhob rhan o Brydain Fawr. Cadarnheais fod y Senedd wedi gwrthod rhoi ei chydsyniad i Fil sy'n osgoi yn fwriadol awdurdod ein Senedd yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Nid oes modd cyfiawnhau bod Llywodraeth y DU am orfodi'r Bil hwn ar gyflogwyr a gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.

Ar fater Confensiwn Sewel, codais y pwynt bod achosion posibl o dorri'r Confensiwn sawl gwaith yn ystod y flwyddyn hon yn unig gan Lywodraeth y DU yn dangos ei hagwedd mor sylfaenol amharchus a dinistriol tuag at y Confensiwn, datganoli a'r Undeb. Yn syml, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros hyn ac nid yw'n gydnaws â'r gofyniad na ddylai Llywodraeth y DU 'fel arfer' ddeddfu heb gydsyniad. Pan nad yw'r Senedd yn rhoi ei chydsyniad i Fil gan Lywodraeth y DU, mae angen i Lywodraeth y DU aildechrau dangos parch tuag at ddatganoli a gwrthdroi sefyllfa lle'r duedd erbyn hyn yw mynd ati i dorri Confensiwn Sewel.

Ar fater y Fframweithiau Cyffredin, nodais eu bod yn dangos bod gweithio rhynglywodraethol da yn bosibl ac y gellir rheoli cydlyniant ac ymwahanu drwy gynnal deialog adeiladol a chydweithio. Fodd bynnag, mae angen bod yn fwy cyson wrth ddefnyddio'r mecanweithiau y mae'r Fframweithiau Cyffredin yn darparu ar eu cyfer i ymgysylltu'n gynnar. Gofynnais i Lywodraeth y DU fynd ati'n bendant i gadarnhau'r pwynt hwnnw ymhlith y sawl sy'n gweithio iddi, ar lefel weinidogol a lefel yr uwch-swyddogion.

Trafododd y Gweinidogion hefyd y mater o ymgysylltu rhyngwladol, gan gynnwys pryderon ynghylch canllawiau diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i'w swyddfeydd tramor ar ymweliadau gan weinidogion y Llywodraethau datganoledig â'r gwledydd hynny. Cadarnheais na allem gytuno y dylai uwch-swyddog o Lywodraeth y DU fod yn bresennol ym mhob cyfarfod â gweinidogion llywodraethau tramor

fel mater o drefn. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolaeth o'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn y dyfodol i drafod y mater hwn.

Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol nesaf yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth yr Alban, yn unol â'r trefniadau cylchdroi cadeirydd.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/214/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

20 Mehefin 2023

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 17 Mai, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig** yn crynhoi'r trafodaethau yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ('IMSC').

Rwyf wedi cadarnhau fel rhan o'r Datganiad hwnnw y bydd yr IMSC nesaf yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth yr Alban, yn unol â threfniadau cylchdroi'r cadeiryddion. Byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau agenda tebygol, maes o law.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 46

Jane Hutt AS/MS
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

21 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Rwy'n ysgrifennu'n unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi y bydd cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 11 Gorffennaf 11am-12:15pm. Bydd yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Cartref, y Gwir Anrh. Suella Braverman CB AS. Byddaf yn ymuno â'r cyfarfod yn rhithiol.

Cytunwyd y bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar lwybrau mudo diogel a chyfreithlon, gan drafod Bil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU yn benodol, a gwasgaru ceiswyr lloches. Hefyd bydd cyflwyniad gan Lu'r Ffiniau am ei waith parhaus o dargedu cyffuriau, a thrafodaeth o gynlluniau Llywodraeth y DU i weithredu'r *Integrated Review Refresh 2023* ar gyfer diogelwch y DU.

Bydd neges yn cael ei chyhoeddi ar ôl y cyfarfod, a byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyn maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Jane Hutt AS/MS
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Huw Irranca-Davies
Chair of the Legislation, Justice
and Constitution Committee,
Welsh Parliament

T +44 (0) 020 4551 0011
E Badenoch.Correspondence@trade.gov.uk
W www.gov.uk

16 June 2023

Dear Huw,

Letter in response to the report on the Welsh Government's Legislative Consent Memoranda on the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill

I would like to thank the Legislation, Justice and Constitution Committee for your letter of 22 February which accompanies the Report on the Welsh Government's Legislative Consent Memorandum on the Retained EU Law (Revocation and Reform) 'REUL' Bill. I am responding as Secretary of State for Business and Trade. My sincere apologies for the delay in my response.

As you may be aware, the Government tabled a set of amendments to the REUL Bill for Lords Report stage on 10 May. Most notably, these included an amendment to clause 1 of the Bill and amendments to the consequential power and the power to make transitional, transitory and savings provision under clauses 19 and 22 respectively.

The amendment to clause 1 sets out in a Schedule a full list of the retained EU law (REUL) which will be revoked on 31 December 2023. The amendments to clauses 19 and 22 extend the powers within these clauses on the devolved authorities. Further detail on these amendments can be found on the UK Parliament website.

This letter responds to the Committee's conclusions and recommendations regarding the REUL Bill as set out in the LCM report as well as clarifying points of detail regarding the government amendments in relation to the Committee's concerns.

REUL Dashboard

The Committee expressed concerns regarding the potential impact of the Bill on legislation within areas of Welsh competence. In particular, concerns that the REUL dashboard does not indicate the devolution status of REUL.

The dashboard presents an authoritative catalogue of REUL. The REUL dashboard has identified over 4,800 pieces of REUL across 16 departments. It is not intended to provide a comprehensive account of REUL in general, nor of REUL that sits with the competence of the devolved governments, although it may contain individual pieces of REUL which do sit in devolved areas. The devolved

governments remain responsible for identifying REUL within their respective areas of devolved competence.

Devolved REUL

I support the Committee's recommendation to encourage the Welsh Government to undertake the necessary work required and share a list of devolved Welsh REUL with the UK Government.

Furthermore, we recognise the importance of identifying the split of reserved and devolved REUL to ensure that we have a consistent understanding across the UK Government and devolved governments. The UK Government is committed to working with the devolved governments as we update the dashboard. That is why, we have established regular intergovernmental meetings, intended to support devolved government counterparts with the identification of which REUL is devolved or reserved, as part of the REUL reform programme.

Legislative consent

I would like to highlight that this Government is committed to respecting the devolution settlements and the Sewel Convention. As you will be aware, we sought legislative consent for the provisions in the Bill that engage the LCM process from the Senedd. Despite our close work with the Welsh Government, the Senedd decided to withhold legislative consent for the REUL Bill. While we regret this decision, we will continue to work with Welsh Government colleagues at ministerial and official levels. This Bill is vital for the whole of the UK to be able to fully take advantage of the benefits of Brexit.

DA engagement

The Committee raised concerns that the UK Government has not sufficiently engaged with the devolved governments on the Bill. I would like to reiterate that we have been proactively engaging with the devolved governments on the progress of the Bill and the wider REUL reform programme. The Government has made use of the structures created by the Review of Intergovernmental Relations to engage with devolved Ministers on the Bill. For example, the Bill has been discussed at meetings of the Interministerial Standing Committee. Most recently, Minister Ghani attended a meeting of that Committee on 17 May to discuss the REUL Bill with devolved Ministers.

We are committed to sustained engagement with the devolved governments. In addition to this, I consider that the government amendments tabled at Lords Report stage, and agreed to by the House of Commons on 24 May, further demonstrate that we have actively listened and sought to make meaningful changes which address the devolved governments' concerns regarding the Bill.

Concurrent powers

We note the Committee's concerns regarding the delegated powers in the Bill. With a revocation Schedule in place, the UK Government and the devolved governments will still retain the powers in the Bill that will allow us to continue to amend REUL and assimilated law.

The powers in the Bill will be conferred concurrently on the devolved governments. This will enable the Welsh Government to make active decisions regarding REUL within its devolved competence.

The concurrent nature of the powers is not intended to influence decision making in devolved governments. Rather, it is intended to reduce additional resource pressure by enabling the UK Government to legislate on behalf of a devolved government where they do not intend to take a different position. Furthermore, we remain committed to continuing discussions with the devolved governments over the exercise of concurrent powers in the Bill.

As I indicated above, the Government has tabled amendments to extend the consequential power (clause 19) and the power to make transitional, transitory and savings provision (clause 22) on the devolved authorities. The powers will be conferred concurrently in the same way as the other delegated powers within the Bill. This will enable the Welsh Government and other devolved governments to make any necessary consequential, transitional and savings provisions arising from the operation of the Bill. This decision has been made in response to concerns raised by the devolved governments. I hope the Committee will recognise this as a meaningful change that demonstrates our commitment to working collaboratively and constructively with the devolved governments on the REUL Bill and wider REUL reform.

Sunset

As I have set out above, the Government tabled an amendment to clause 1 in the Bill at Lords Report stage. This amendment replaced the original sunset with a list of specified pieces of REUL to be revoked at the end of 2023. The revocation Schedule will provide greater certainty on which REUL will be revoked by the end of the year. It will enable the UK Government and the devolved governments to prioritise more ambitious and complex reform of former REUL which remains on the statute book at the end of 2023. As a result of this amendment, clauses 2 and 3 have been removed from the Bill, as they are no longer required.

However, the Bill still includes a limited preservation power that will be conferred concurrently on the devolved governments. Where devolved governments wish to disapply the revocation of REUL presently listed on the Schedule, they will be able to exercise the preservation power in respect of the relevant REUL within their areas of devolved competence. The preservation power will expire on 31 October 2023 and it will be subject to the affirmative procedure.

I hope you will agree that the amendment we have tabled is a meaningful change to the Bill which addresses many of the concerns raised in your letter regarding the sunset. It is my view that the greater certainty provided by the revocation Schedule will allow the UK Government and the devolved governments to continue to make meaningful reforms, for the benefit of citizens and business across all parts of the UK.

Extension power

As outlined above, as a result of the Government's amendment to replace the original sunset under clause 1 with a revocation Schedule, the extension power under clause 2 no longer forms part of the Bill.

Parliamentary scrutiny

We would support the Committee's recommendation to establish a new relevant committee once the Seventh Senedd is in place. We recognise the significant role Parliament has played in scrutinising instruments subject to sifting procedures previously and are committed to ensuring the appropriate scrutiny under the delegated powers in this Bill. We have sought to ensure robust scrutiny measures are included in the Bill. This includes ensuring there is appropriate scrutiny for any repeals or reforms of REUL that are made using the powers contained in the Bill, whilst ensuring the most effective use of Parliamentary time.

International obligations

In response to recommendation 10, as you will be aware, Minister Ghani made a commitment at Report Stage in the House of Commons that the Government will ensure that the provisions within the Bill will ensure the continued implementation of our international obligations, including the Northern Ireland Protocol (and now in the Windsor Framework), the Trade and Cooperation Agreement and the Withdrawal Agreement. Furthermore, the Schedule amendment removes the requirement for such legislation to be explicitly preserved, given that REUL will no longer

automatically sunset. However, the sentiment in this commitment remains unchanged and, as such no REUL that is required to uphold international commitments is included in the Schedule.

REUL reform

I would support the Committee's conclusion for the Welsh Government to progress its delivery plans for REUL reform. It will be important to work with the devolved governments in order to understand their plans for REUL reform and how best to work jointly on the use of concurrent powers and other measures within the Bill. We remain committed to continuing discussions with the devolved governments over the use of concurrent powers in the Bill to ensure the provisions work for all parts of the UK.

Intra-UK divergence

As you will be aware, Common Frameworks and the UK Internal Market (UKIM) Act are some of the existing mechanisms which have been developed with the devolved governments to enable joint working in devolved areas. The UK Government and the devolved governments agree where Common Frameworks are operating that they are the right mechanism for discussing REUL reform in the areas that they cover. The Government will continue to work closely with the devolved governments to manage intra-UK divergence through these existing structures.

I would like to reiterate that my officials have been working together with devolved counterparts to address any concerns and to ensure the Bill works for all parts of the UK. It is right that people across all parts of the UK should benefit from the ability to reform and amend REUL so that the opportunities of Brexit can be further seized.

Best wishes,

A handwritten signature in black ink that reads "Kemi Badenoch". The signature is written in a cursive, flowing style.

THE RT HON KEMI BADENOCH MP

Secretary of State for Business & Trade and President of the Board of Trade
Minister for Women & Equalities



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Papur Gwyn – System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru
DYDDIAD	19 Mehefin 2023
GAN	Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Heddiw, rwy'n cyhoeddi Papur Gwyn o'r enw "[System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru](#)" i ymgynghori ar gynigion ynghylch system fodern ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig Cymru.

Mae'r Papur Gwyn yn amlinellu cyfres o gynigion i greu strwythur tribiwnlysoedd unedig sydd wedi'i lunio mewn modd hyblyg ac sy'n gallu ymgorffori awdurdodaethau newydd heb fawr o darfu. Bydd y system dribiwnlysoedd newydd nid yn unig yn diwallu anghenion cyfiawnder presennol y tribiwnlysoedd yn well; bydd hefyd yn gallu addasu i ddiwallu anghenion Cymru yn y dyfodol.

Mae'r Papur Gwyn yn datblygu ac yn adeiladu ar argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a phrosiect Comisiwn y Gyfraith ar y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'r prif gynigion yn cynnwys:

- creu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac iddo strwythur siabrau;
- creu Tribiwnlys Apêl Cymru;
- dulliau symlach a chydlynol o benodi aelodau tribiwnlysoedd ac o ymdrin â chwynion ar draws y system dribiwnlysoedd newydd;
- creu corff hyd braich newydd sy'n annibynnol yn strwythurol, i weinyddu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru;
- creu pwyllgor rheolau tribiwnlysoedd Cymru.

Mae gennym ddau nod wrth roi proses ddiwygio ar waith. Yn gyntaf, creu system dribiwnlysoedd fodern i Gymru sy'n canolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder ac ar anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd, i roi hyder iddynt fod y system yn gweithredu'n annibynnol ac

mewn modd sy'n dyfarnu ar eu hanghydfodau yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn brydlon. Yn ail, gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol lle mae cyfiawnder wedi'i ddatganoli, a Chymru'n gweinyddu ei system ehangach ei hun o lysoedd a thribiwnlysoedd.

Mae'r Papur Gwyn i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Asesiad Effaith Integredig Drafft a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft, sy'n amlinellu costau effeithiau'r cynigion deddfwriaethol.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cau ar 2 Hydref 2023. Bydd yr ymatebion, ynghyd â'r holl faterion perthnasol eraill gan gynnwys parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu ein sylfaen dystiolaeth, yn cael eu defnyddio'n sail i'n gwaith wrth inni fynd ati i ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/187/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad
Senedd Cymru

seneddDCC@senedd.cymru

19 Mehefin 2023

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod heddiw wedi cyhoeddi Papur Gwyn o'r enw "System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru" (sydd ar gael yn ["System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru"](#)).

Mae'r Papur Gwyn yn adeiladu ar argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Chomisiwn y Gyfraith. Mae'n ceisio barn ar gyfres o ddiwygiadau a fydd yn creu strwythur tribiwnlysoedd unedig, hyblyg ei natur, a fydd yn gallu ymgorffori awdurdodaethau newydd i'w alluogi i ddiwallu anghenion Cymru yn y dyfodol.

Wrth gwrs, mae diwygio ein tribiwnlysoedd datganoledig yn fater y mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ymddiddori'n fawr ynddo, ac felly rwy'n siŵr y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, a fydd yn dod i ben ar 2 Hydref. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi wrth i ni frw ymlaen â'r diwygiadau pwysig hyn.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 54
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Mehefin 2023

Annwyl Jayne

Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

Yn dilyn fy natganiad i'r Senedd ddoe, roeddwn am achub ar y cyfle i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi gweithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o ganlyniad ('y Comisiwn').

Fel y dywedais pan ysgrifennais at y Pwyllgor yn flaenorol, rwy'n mabwysiadu dull graddol o weithredu'r Ddeddf ar sail yr egwyddorion canlynol:

- sicrhau parhad y ddarpariaeth i'r sector heb unrhyw darfu amlwg ar ddarparwyr neu ddysgwyr wrth sefydlu'r Comisiwn,
- osgoi baich gormodol ar ddarparwyr yn ystod y cyfnod gweithredu, er enghraifft rheoli a chydamseru maint ac amseriad yr ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol,
- defnyddio'r dyletswyddau strategol, fel y nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf, fel sylfaen graidd ar gyfer gwaith y Comisiwn o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys paratoi a chyhoeddi datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru.

Sefydlu'r Comisiwn

Yn unol â'r llinell amser gweithredu lefel uchel a nodais yn fy llythyr blaenorol, bydd y Comisiwn yn cael ei sefydlu ym mis Medi ar ôl i Simon Pirotte ddechrau yn ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau cyffredin y Bwrdd ddechrau yn eu swyddi nhw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Yn ystod cyfnod toriad yr haf byddaf yn gwneud yr ail Orchymyn cychwyn mewn perthynas â'r Ddeddf, a fydd yn galluogi'r Comisiwn i arfer swyddogaethau penodol rhwng Medi 2023 ac Ebrill 2024. Rydym yn cyfeirio at y cyfnod hwn fel y cyfnod sefydlu.

Bydd y swyddogaethau y bydd y Comisiwn yn gallu eu harfer yn ystod y cyfnod hwn naill ai'n gorfforaethol neu'n weithredol eu natur, fel y rhai yn Atodlen 1 i'r Ddeddf mewn perthynas â phenodi staff neu sefydlu pwyllgorau er enghraifft, neu'n swyddogaethau a gychwynnir yn rhannol at y diben o alluogi'r Comisiwn i ddechrau datblygu elfennau penodol sy'n ofynnol i gefnogi gweithredu diwygiadau allweddol.

Pan fydd y Gorchymyn Cychwyn wedi'i wneud, byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau yn y Ddeddf y byddaf yn dod â nhw i rym a sut y gall y Comisiwn ddewis arfer y swyddogaethau hynny yn ystod y cyfnod sefydlu.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd CCAUC yn cadw cyfrifoldeb am ariannu, ansawdd a rheoleiddio addysg uwch, tra bydd Llywodraeth Cymru yn cadw cyfrifoldeb am addysg bellach, prentisiaethau, a'r chweched dosbarth ac ati. Wedyn bwriedir i'r Comisiwn ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2024 ar ôl diddymu CCAUC.

Is-ddeddfwriaeth

Fel y dywedais yn ystod y broses graffu, bydd gweithredu'r Ddeddf yn gofyn am wneud ystod o is-ddeddfwriaeth; ac fe wnes i osod y cyntaf ohonynt, sef Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cymreig Perthnasol) (Diwygio) 2023, gerbron y Senedd yn gynharach y mis hwn.

Mae Atodiad A yn nodi'r offerynnau statudol yr wyf yn bwriadu ymgynghori arnynt, ac wedyn eu gwneud, dros y misoedd nesaf, gyda'r bwriad polisi mewn perthynas â'r rhain yn parhau i raddau helaeth fel y nodir yn y datganiad o fwriad polisi a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Ddeddf pan gafodd ei gyflwyno i'r Senedd.


Mae Atodiad A hefyd yn crynhoi pwrpas arfaethedig pob offeryn statudol, er bod hyn wrth gwrs yn amodol ar ein hystyriaeth o unrhyw ymatebion a geir i'r ymgynghoriadau perthnasol.

Yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth sylweddol a nodir yn Atodiad A, bydd hefyd angen gwneud Rheoliadau i adlewyrchu'r diwygiadau canlyniadol gofynnol i'r ddeddfwriaeth bresennol, ochr yn ochr â gwneud y Gorchymynion cychwyn angenrheidiol.

Mae gweithredu'r Ddeddf yn ymgymeriad sylweddol yr wyf yn rhagweld y bydd yn parhau hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon, yn unol â'r egwyddor o osgoi baich gormodol ar ddarparwyr. Byddaf yn parhau i roi diweddariadau i'r Comisiwn wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Os oes gennych chi, neu aelodau eich Pwyllgor, unrhyw gwestiynau penodol yn y cyfamser, byddwn yn falch o ddarparu gwybodaeth ychwanegol lle bo'n bosibl.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a byddaf yn ei rannu â'n rhanddeiliaid er gwybodaeth.



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

Atodiad A – Gweithredu'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil – Is-ddeddfwriaeth

Tudalen y pecyn 58

Offeryn statudol	Pwrpas	Amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymgynghori ar yr OS drafft	Amserlen a ragwelir ar gyfer gwneud yr OS
Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru)	<p>Y bwriad yw gwneud darpariaeth mewn perthynas â chofrestru darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, yn ymwneud â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Categoriâu o wariant • Pennu'r categori y mae'r amod terfyn ffioedd yn berthnasol iddo • Nifer cyfyngedig o amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus ychwanegol • Pennu pa gategori y mae'n rhaid i ddarparwr fod wedi cofrestru ynddo i fod yn gymwys i gael cyllid ar gyfer addysg uwch neu ymchwil ac arloesi 	<p align="center">Hydref 2023</p> <p align="center"><i>Ymgynghoriad ar y cyd ar bob un o'r Offerynnau Statudol hyn a'r bwriad polisi mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol yn y dyfodol sy'n angenrheidiol i gwblhau gweithredu'r system gofrestru</i></p>	<p align="center">Gwanwyn 2024</p>
Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Dynodi Darparwyr) (Cymru)	Y bwriad yw gwneud darpariaeth ynghylch pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol yn sefydliad o dan adran 83(4) o'r Ddeddf		
Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru)	Y bwriad yw gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau a wnaed gan y Comisiwn o dan adrannau 45 a 78 o'r Ddeddf		
Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 56 o'r Ddeddf Economi	Y bwriad yw darparu ar gyfer dileu CCAUC ac ychwanegu'r Comisiwn i'r rhestr o bersonau a all rhannu gwybodaeth at ddibenion	<p align="center">Hydref 2023</p>	<p align="center">Chwefror 2024</p>

Offeryn statudol	Pwrpas	Amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymgynghori ar yr OS drafft	Amserlen a ragwelir ar gyfer gwneud yr OS
Ddigidol i ddiwygio Atodlen 8 o'r Ddeddf honno	gweithredu i fynd i'r afael â thwyll yn erbyn y sector cyhoeddus		
Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 57(4) o'r Ddeddf	Y bwriad yw disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), gan fod y pŵer galluogi y gwnaed y Rheoliadau hynny oddi tano yn cael ei ddiddymu fel rhan o weithredu'r Ddeddf.	Hydref/Gaeaf 2023	Chwefror 2024
Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio)	Mae'n darparu i'r Comisiwn fod yn gorff ystadegol swyddogol	Ni fwriedir cyhoeddi'r OS drafft ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gan fod y cynnig i'r Comisiwn gael ei ddynodi'n gorff ystadegol swyddogol wedi'i nodi yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil. Fodd bynnag, y bwriad yw ymgynghori ag Awdurdod Ystadegau'r DU cyn gwneud y Gorchymyn Diwygio.	Mawrth 2024
Rheoliadau i'w gwneud o dan adran 94 o'r Ddeddf	Y bwriad yw pennu 'addysg a hyfforddiant perthnasol' at ddibenion dyletswydd y Comisiwn i sicrhau darpariaeth cyfleusterau priodol yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol i bersonau cymwys dros 19 oed	Dechrau 2024	Erbyn haf 2024

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/1185/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai a oedd yn nodi nifer o gwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd yr ymatebion yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 61

Atodiad

Ymateb i Gwestiynau a ofynnwyd yn llythyr y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig Mai 25 2023 at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Hygyrchedd:

1. Ym mis Medi 2021, fe wnaethom argymhell yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Amgylchedd y dylai Bil amgylcheddol yn y dyfodol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion datganoledig ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU, ar ôl ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid. Gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. A allwch chi ddweud wrthym a yw'r Bil yn cynnwys materion sy'n berthnasol i Fil Amgylchedd y DU ac, os felly, sut y mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ein hadroddiad?

Mae fframwaith cymhleth o gyfraith amgylcheddol ac mae rhywfaint ohono'n perthyn i'r cyfnod cyn datganoli. Drwy ein camau gweithredu ar y Bil hwn, ac yn fwy cyffredinol, rydym wedi cymryd camau i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Gymru. Rwyf yn ymwybodol o'r argymhelliad yn Adroddiad Medi 2021 a'n cytundeb i'w dderbyn mewn egwyddor. Nid yw hynny wedi newid.

Mae'r gwaith o baratoi a chynllunio ar gyfer y Bil wedi bod yn mynd rhagddo ers amser maith, a chyn mis Medi 2021. Nod y Bil yw cyflawni'r ymrwymadau polisi ansawdd aer yn ein Rhaglen Lywodraethu a'n Cynllun Aer Glân i Gymru. Mae'r Bil hefyd yn bwrw ymlaen â llawer o gynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân a oedd yn destun ymgynghoriad ym mis Ionawr 2021.

Mae ein Bil yn diwygio nifer cyfyngedig o ddarpariaethau a fewnosodwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995 gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae hyn yn cynnwys y diwygiad i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol, felly rydym yn adolygu deddfwriaeth Cymru yn Neddfau'r DU yn gyson. Fodd bynnag, byddai ymgorffori'r darpariaethau y rhesom gydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn ein Bil yn creu risg o ddull gweithredu tameidiog iawn.

2. Yn y sesiwn dystiolaeth, gwnaed y sylwadau a ganlyn gennyh chi a'ch swyddogion:

“it's a Bill that's intended to fit into other legislation—the attempt to do that in this Bill would have caused ripples across the other legislation in a way that was less than helpful and might actually make the Bill less accessible. So, I understand the sentiment of what you're saying entirely, but, as I understand it, you'd then have to look at the interaction between this and various environment Acts and so on, and then the ripples of that would start to go out and you'd start to be looking at a very different Bill.” [Cofnod y Trafodion 37].

“in this case, the Bill has got a particular focus, and to carve out parts of the body of environmental law and put them elsewhere—our view is that that results in a partial retelling of the story about air quality, for legislation about air quality. You mentioned the Clean Air Act 1993; taking out Part 3 of that takes it out of its context with other Parts of that Act that are about air quality. So, yes, overall, the view was that it wouldn't improve accessibility of law in this instance to just take those bits out.” [Cofnod y Trafodion 38]

“the environment Act ... is replete with Secretary of State for England things, which also then apply to Wales. So, it's quite complicated. I defer to the lawyers, and, actually, I'm in awe of who on earth worked their way through this.” [Cofnod y Trafodion 46]

“It didn't seem necessary or optimal in any way to transfer the entire framework, only to say, 'It's exactly the same, apart from these little bits', really. So, it's part of the same conversation. We've been trying to limit the Bill that this committee is now scrutinising, and, obviously, the policy committees have scrutinised as well, to its own parameters. We've been very clear that it's not an all-encompassing Bill, and a lot of what you're talking about would stretch it back out into starting to take in a whole pile of other things. So, I'm afraid it's part of the same issue, isn't it? And then, for me, there's a big issue about implementation, so do we have to spend the next two years doing consequential amendments before the thing is implementable? I didn't want to get into that. And also, you start to have what should be a fairly straightforward Bill taking up two thirds of the legal resource of the Welsh Government.” [Cofnod y Trafodion 54]

- A. Sut mae'r sylwadau am hygyrchedd yn gyson â'r ffaith y bydd deddfwriaeth ar ansawdd aer yn awr yn cael ei nodi mewn un Ddeddf Gymreig a dwy Ddeddf sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr?**

Rydym wedi gwneud rhywfaint o ddarpariaeth annibynnol, ond gellid cyflawni llawer o nodau'r Bil drwy ddiwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

Mae ffocws penodol i'r Bil hwn. Wrth ystyried sut i fynd ati i ddrafftio, roeddem o'r farn y byddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth y mae'r Bil yn ei diwygio a'i hategu yn arwain at ailadrodd y stori am ansawdd aer yn rhannol. Gallai hyn fod yn niweidiol i hygyrchedd y gyfraith.

Mewn rhai achosion, er enghraifft mewn perthynas â darpariaethau rheoli ansawdd aer yn lleol, cymharol fach yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Bil hwn. Gallai ailddatgan cyfran fawr o'r ddeddfwriaeth wrth wneud diwygiadau o'r fath arwain at ddryswch.

Byddai cynhyrchu Bil i gydgrynhoi'r holl ddeddfwriaeth ansawdd aer sy'n berthnasol i Gymru wedi bod yn broses hir a rhaid cael cydbwysedd rhwng yr angen am gydgrynhoi a'r angen i roi darpariaethau'r Bil hwn ar waith cyn gynted â phosibl.

- B. Rydym yn aneglur pam na fanteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r Bil i ddiweddarau, gwella a symleiddio elfennau o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ymwneud ag ansawdd aer er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Er enghraifft, mae Ansawdd Aer wedi'i gynnwys yn Neddf yr Amgylchedd 1995 mewn 11 adran (Rhan 4 o'r Bil). Pam na ellid trosi'r darpariaethau hunangynhwysol hyn i'r Bil hwn a'u diweddarau lle bo angen?**

Fel y nodwyd uchod, credwn y gallai ailddatgan cyfran fawr o ddeddfwriaeth ar yr un pryd â gwneud diwygiadau penodol a gweddol gynnil fod yn ddryslyd, ac y byddai'n golygu ailadrodd stori ansawdd aer yn rhannol.

C. A gafodd y penderfyniad i beidio â chydgrynhoi cyfraith ansawdd aer mewn un Bil ei ddylanwadu gan y cyfyngiadau capasiti ac adnoddau y gwnaethoch gyfrannu atynt?

Fel y nodwyd yn glir yn ystod sesiwn y Pwyllgor, mae'n rhaid ystyried y goblygiadau o ran adnoddau wrth ddechrau ar broses Bil. Fodd bynnag, roedd y penderfyniad yn deillio o asesiad o'r ddarpariaethau sy'n bodoli eisoes a natur y diwygiadau yr oeddem yn ceisio eu gwneud.

3. O ystyried na chaniateir i reoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil gael eu gosod tan y Seithfed Senedd, pam na chyflwynwyd Bil amgylcheddol mwy hollgynhwysol a chynhwysfawr ar ansawdd aer tan yn ddiweddarach yn y Chweched Senedd, a allai fod wedi sicrhau canlyniadau gwell drwy ddeddfwriaeth sylfaenol a bod yn gyson ag amcan Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru?

Mae'r Bil yn gynhwysfawr. Bydd ei ddarpariaethau, pan fyddant ar waith, yn arwain at welliannau amlwg yn yr amgylchedd aer, o ran ansawdd aer a seinweddau. Rydym mewn argyfwng hinsawdd a natur. O ganlyniad, rhoddwyd blaenoriaeth i gyflwyno'r Bil yn gynnar yn nhymor y Senedd hon er mwyn gallu craffu ar ei ddarpariaethau a phasio'r Bil, gobeithio, i'n galluogi i fwrw ymlaen i'w roi ar waith. Byddai oedi cyn cyflwyno yn arwain at oedi cyn gweithredu, ac ni chredaf fod unrhyw un o'n rhanddeiliaid wedi eirioli dros hynny.

Hefyd, ni fyddai oedi cyn cyflwyno'r Bil yn effeithio ar ei ddarpariaethau. Am resymau yr wyf wedi'u hamlinellu, ni chaiff targedau eu gosod ar wyneb y Bil. Mae angen eu gosod mewn rheoliadau er mwyn inni gael yr hyblygrwydd i'w diwygio a'u diweddarau yn unol â thystiolaeth a chyngor gwyddonol.

Rydym yn blaenoriaethu gwaith i osod targed ar gyfer PM2.5 sydd, yn ôl y dystiolaeth, yn achosi'r niwed mwyaf i iechyd. Mae llawer iawn o waith cymhleth i'w wneud i osod targed ymestynnol ond cyraeddadwy, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a thystiolaeth a chyngor arbenigol. Dyna pam ein bod wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed o fewn 3 blynedd i'r Cydsyniad Brenhinol.

Ochr yn ochr â hyn, mae ail gam o waith eisoes yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau targed ar gyfer y llygryddion eraill sy'n rhan o ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, ac amonia. Mae rhagor o waith i'w wneud mewn perthynas â'r llygryddion hynny, ac felly rydym yn gweithio o fewn amserlen hirach. Mae swyddogion yn rhag-weld y byddant mewn sefyllfa i ddarparu cyngor cychwynnol i Weinidogion ar gynigion targed ar gyfer y llygryddion eraill hyn erbyn haf 2025. Bydd camau gweithredu yn y dyfodol wedyn yn dibynnu ar ystyriaeth Weinidogol bryd hynny.

Ansawdd Aer – Targedau Cenedlaethol

4. A fydddech cystal â chrynhoi'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar ansawdd aer, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth am y targedau ansawdd aer presennol a'r sail y'u gosodwyd arnynt?

Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar ansawdd aer yng Nghymru a'r DU yn deillio ar hyn o bryd o gymysgedd o ddeddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol, ac mae'n cynnwys tair prif elfen:

1. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio crynodiadau llygryddion mewn aer amgylchynol – Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am adrodd ar amrywiaeth o fathau o dargedau llygredd ac am gydymffurfio â nhw. Er enghraifft, mae llygryddion sydd â thargedau yn cynnwys nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, sylffwr deuocsid, osôn ar lefel y ddaear a metelau trwm. Roedd y targedau'n seiliedig ar ddadansoddi a negodi ar lefel yr UE, a chafodd dadansoddiad economaidd o'r costau a'r manteision yn y DU ei gynnal gan Lywodraeth y DU.
2. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio cyfanswm allyriadau cenedlaethol pum llygrydd aer (nitrogen ocsid, sylffwr deuocsid, cyfansoddion organig anwedol nad ydynt yn cynnwys methan, mân ddeunydd gronynnol ac amonia) – Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 a Phrotocol Gothenburg i Gonfensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pell. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am adrodd ar a chydymffurfio â thargedau y cytunir arnynt ar lefel y DU;
3. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio allyriadau o ffynonellau penodol, fel allyriadau diwydiannol i'r aer a llosgi domestig, gan gynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 a Deddf Aer Glân 1993.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sy'n rhagflaenu llawer o Gyfarwyddbau'r UE y deilliodd llawer o'r ddeddfwriaeth uchod ohonynt, mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang mewn perthynas ag ansawdd aer. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer ar raddfa leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Mae'r broses hon yn mynnu bod awdurdodau lleol yn adolygu ac yn asesu ansawdd yr aer, gan gynhyrchu cynlluniau gweithredu lle canfyddir bod ansawdd yr aer yn wael ac mewn perygl o dorri amcanion ansawdd aer. Roedd y safonau (lefelau) yn seiliedig ar waith Panel Arbenigol Safonau Ansawdd Aer Llywodraeth y DU a grwpiau arbenigol eraill.

Ar wahân i'r ddeddfwriaeth hon, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i ymchwilio i gwynion ynglŷn â mwg sy'n achosi niwsans, mygdarth, arogleuon a llwch gan aelodau o'r cyhoedd dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

5. Beth mae'r Bil hwn yn eich galluogi i'w gyflawni ar dargedau ansawdd aer na allwch ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol ansawdd aer presennol?

Mae'r Bil yn adeiladu ar bŵer gwneud rheoliadau eang iawn yn Adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ansawdd aer a allai gynnwys gosod targedau tymor hir neu dymor byr mewn perthynas ag ansawdd aer.

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adeiladu ar hyn drwy ddarparu pwerau penodol, yn hytrach na rhai cyffredinol, i osod targedau hirdymor a dyletswydd i osod targed mewn perthynas â PM2.5 yn ogystal â gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd.

Mae'r Bil yn sefydlu fframwaith ar gyfer cynhyrchu targedau a dyletswyddau penodol sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cael ac yn cyhoeddi data ansawdd aer data ansawdd aer y maent yn credu sy'n angenrheidiol i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targedau hyn. Rhaid adolygu targedau ac adrodd arnynt hefyd.

Felly, drwy'r Bil, rydym wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno mesurau sy'n cryfhau ac yn ategu'r fframwaith deddfwriaethol presennol; gan osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru lle nad oes rhai'n bodoli ar hyn o bryd.

Bydd darpariaethau'r Bil yn sicrhau nid yn unig bod targedau'n cael eu gosod ond bod Llywodraeth bresennol Cymru a llywodraethau yn y dyfodol yn cael eu dwyn i gyfrif ynghylch y targedau hyn.

6. Sut bydd Rhan IV, Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda Rhan 1 o'r Bil? Yn benodol, sut y bydd adrannau 1 a 2 o'r Bil yn rhyngweithio ag adran 87 o Ddeddf 1995 (Rheoliadau at ddibenion Rhan IV)?

Mae adran 87 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau eang sy'n berthnasol i reoliadau a wneir o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Mae adran 87 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud ag ansawdd aer.

Bydd Adran 87 yn ategu Rhan 1 o'r Bil, yn enwedig y pwerau a'r dyletswyddau newydd ac ehangach yr ydym wedi'u cymryd yn adrannau 1 a 2. Mae'n bosibl y bydd rheoliadau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio pwerau yn adran 87 ac adrannau 1 a/neu 2 o'r Bil.

Fel y nodir uchod mewn perthynas â chwestiwn 5, mae'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r darpariaethau yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Felly, mae'r fframwaith deddfwriaethol wedi'i gryfhau drwy gymryd y pwerau a'r dyletswyddau newydd hyn.

7. Mae Adran 1 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Pam bod angen pŵer mor eang?

Mae'n rhan o fframwaith sy'n pennu pwerau Gweinidogion Cymru i osod targedau hirdymor. Mae'n cael ei ategu gan y dyletswyddau ychwanegol a nodir yn adran 3 (sy'n pennu'r broses gosod targedau), adran 4 (effaith targedau), adran 5 (adrodd), adran 6 (adolygu) ac adran 7 sy'n gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer casglu data ansawdd aer i fonitro'r cynnydd tuag at gyrraedd targedau a osodir o dan y Bil.

Fel y nodir uchod yn yr ymateb i gwestiwn 5, mae'r pwerau a'r dyletswyddau yn Rhan 1 o'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r pwerau a'r dyletswyddau presennol a roddir ar Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag ansawdd aer, ac yn eu hategu.

Mae'r pŵer yn adran 1, ac yn fwy cyffredinol yn Rhan 1 yn adlewyrchu natur uchelgeisiau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn.

8. Pam nad oes diffiniad o ansawdd aer ar wyneb y Bil?

Nid yw ansawdd aer wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, nid oes diffiniad o ansawdd aer yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Yn yr un modd, nid yw wedi'i ddiffinio yn Neddf yr Amgylchedd 2021. Bwriedir i'r ymadrodd gael ei ystyr arferol ac felly nid oes angen diffiniad.

9. Os yw ansawdd aer yn cael ei ystyried fel ystyr cyffredin, beth yw'r ystyr cyffredin hwnnw yn eich barn chi?

Mae ansawdd aer yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pa mor llygredig yw'r aer yr ydym yn ei anadlu. Pan fydd ansawdd yr aer yn wael, gall llygryddion yn yr aer fod yn beryglus i'r amgylchedd ac i bobl, yn enwedig pobl â chyflyrau ar yr ysgyfaint neu'r galon. Gall llygryddion gael eu rhyddhau o ffynonellau artiffisial neu naturiol.

10. Er mwyn deall sut y gellid defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r canlynol:

- A. A oes unrhyw faterion yng Nghynllun Aer Glân Cymru na fyddent yn dod o dan y pŵer i wneud rheoliadau?**
- B. Pa faterion, os o gwbl, y tu allan i Gynllun Aer Glân Cymru y gellid mynd i'r afael â nhw gan y pŵer i wneud rheoliadau?**
- C. A oes unrhyw ddiwydiannau, cyrff neu safleoedd na allai fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1?**
- D. A ellid defnyddio rheoliadau o dan adran 1 i reoli materion yn ymwneud ag ansawdd aer megis, er enghraifft, niwsans cyhoeddus neu arogleuon?**

Mae'r pŵer yn adran 1 yn caniatáu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru.

Pwrpas unrhyw dargedau ansawdd aer newydd yw lleihau'r niwed a achosir drwy ddod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael i iechyd pobl, natur a'r amgylchedd. Ochr yn ochr â darparu lefel 'sylfaenol' o ansawdd aer ledled Cymru, rydym hefyd am i dargedau sbarduno gwelliant parhaus hirdymor i leihau amlygiad i lygredd ar yr un pryd â chynyddu'r manteision cysylltiedig i'r eithaf.

Mae'r Cynllun Aer Glân i Gymru yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu, sy'n mynd y tu hwnt i osod rheoliadau. Er enghraifft, hyrwyddo newid diwylliannol i sicrhau gwelliannau i ansawdd aer drwy ddulliau fel codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lygredd aer. Felly, mae camau gweithredu yn y Cynllun sydd y tu hwnt i gwmpas pŵer gwneud rheoliadau. Fodd bynnag, mae diben y targedau ansawdd aer y gellir eu gosod o dan adran 1 yn gwbl gyson â nod cyffredinol y Cynllun, sef gwella ansawdd aer yng Nghymru.

O ran diwydiannau, cyrff neu safleoedd na allent fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1, Gweinidogion Cymru fyddai'n ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1. Gweinidogion Cymru sy'n gorfod sicrhau (yn unol ag adran 4(1)(a)) bod targedau a osodir o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil yn cael eu cyrraedd. Bydd rheoliadau o dan adran 1 yn gosod targedau sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Ni fyddant yn benodol i ffynhonnell, by ni fyddant yn nodi diwydiannau,

cyrff na safleoedd penodol. Camau gweithredu a gymerir y tu allan i'r rheoliadau a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl cyflawni'r targedau.

Ni ddatblygwyd y pŵer i wneud rheoliadau i reoli materion sy'n ymwneud â niwsans cyhoeddus ac arogleuon. Bydd yn gosod targedau hirdymor (i'w cyflawni o leiaf 10 mlynedd ar ôl dyddiad gosod y targed) ar gyfer gwella ansawdd aer. Mae deddfwriaeth bresennol sy'n ymdrin â niwsans ar gyfer materion sy'n cynnwys allyriadau mwg, llwch, nwyon ac arogleuon, a nodir, er enghraifft, yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

11. Pryd y bydd rheoliadau o dan adran 1 yn cael eu gosod gyntaf, a pham nad oes cyfnod terfyn ar gyfer gosod y set gyntaf o reoliadau (fel sydd ar gyfer rheoliadau o dan adran 2)?

Rydym yn bwriadu gosod rheoliadau sy'n gosod targed ar gyfer mân ddeunydd gronynnol (PM2.5) cyn pen 36 mis ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, mae hwn yn derfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith paratoi pwysig i wneud pethau'n iawn, nid nod.

Mae gennym safonau ansawdd aer presennol sy'n parhau i fod mewn grym yng Nghymru, gan ddarparu parhad a sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ystod o ganllawiau ansawdd aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth ddatblygu cynigion targed newydd, ochr yn ochr â dadansoddiad, tystiolaeth a chyngor arbenigol annibynnol ar amrywiaeth o ffactorau.

Fel y nodwyd mewn perthynas â chwestiwn 3 uchod, rydym yn blaenoriaethu gwaith i osod targed ar gyfer PM2.5 sydd, yn ôl y dystiolaeth, yn achosi'r niwed mwyaf i iechyd. Mae llawer iawn o waith cymhleth i'w wneud i osod targed ymestynnol ond cyraeddadwy, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a thystiolaeth a chyngor arbenigol. Dyna pam ein bod wedi gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed o fewn 3 blynedd i'r Cydsyniad Brenhinol.

Ochr yn ochr â hyn, mae ail gam o waith eisoes yn mynd rhagddo i ystyried opsiynau targed ar gyfer y llygryddion eraill sy'n rhan o ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, ac amonia. Mae rhagor o waith i'w wneud mewn perthynas â'r llygryddion hynny, ac felly rydym yn gweithio o fewn amserlen hirach. Mae swyddogion yn rhag-weld y byddant mewn sefyllfa i ddarparu cyngor cychwynnol i Weinidogion ar gynigion targed ar gyfer y llygryddion eraill hyn erbyn haf 2025. Bydd camau gweithredu yn y dyfodol wedyn yn dibynnu ar ystyriaeth Weinidogol bryd hynny.

Rydym am i dargedau fod yn uchelgeisiol, yn hygred, yn gost-effeithiol ac yn cael eu cefnogi gan gymdeithas. Felly, mae'n hanfodol bod arbenigwyr a rhanddeiliaid yn cyfrannu at y broses hon er mwyn sicrhau bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu, ei harchwilio a'i phrofi'n briodol.

12. Dywed adran 2(4) y gall rheoliadau sy'n pennu targed ansawdd aer PM2.5 wneud darpariaeth sy'n diffinio "aer amgylchynol". Pam mai dim ond i dargedau ansawdd aer PM2.5 y mae'r diffiniad hwn yn berthnasol a pham y caiff ei ddiffinio mewn rheoliadau yn hytrach nag ymddangos ar wyneb y Bil?

Mae adran 1 yn creu pŵer cyffredinol i osod targedau hirdymor mewn perthynas ag ansawdd aer. Efallai na fydd y targedau hyn yn cael eu gosod bob amser mewn perthynas â lefel y llygryddion penodol mewn aer amgylchynol. Er enghraifft, gellid gosod targedau ar gyfer cyfanswm allyriadau llygrydd aer yng Nghymru. Felly, nid oes

sicrwydd y bydd y cysyniad o “aer amgylchynol” yn berthnasol i’r dibenion hyn ac oherwydd na ddefnyddir y term yn adran 1, nid oes angen ei ddiffinio yn adran 1.

Ar y llaw arall, mae adran 2 yn cynnwys pŵer i greu math penodol iawn o darged mewn perthynas â lefelau deunydd gronynnol yn yr aer amgylchynol. Felly, mae angen diffinio’r hyn a olygir gan “aer amgylchynol”. Mae’r diffiniad hwn yn cael ei adael i’w nodi mewn rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i gael digon o hyblygrwydd i osod targed priodol, ac yn wir i allu gosod mwy nag un targed os oes angen.

Ansawdd Data

13. Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid a allai ymdrin â gwella data ansawdd aer (paragraff 3.82).

A. At ba gynlluniau cyflawni yr ydych yn cyfeirio a beth yw eu sail statudol?

Rydym wedi cynnig gweithredu'r ddyletswydd codi ymwybyddiaeth drwy ddatblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid.

Pwrpas y cynllun cyflawni yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cyflawni ein dyletswydd yn rhagweithiol o dan y ddarpariaeth hon.

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi camau gweithredu posibl y gellid eu cynnwys yn y cynllun. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwelliannau i'r ffordd mae data ansawdd aer presennol yn cael ei gyflwyno, a sicrhau ei fod yn hawdd ei ddeall. Ond gallai hefyd gynnwys mentrau sy'n ymgysylltu'n weithredol â chymunedau i wella ansawdd aer, fel gwyddoniaeth dinasyddion neu weithgareddau gwrthsegura.

Mae'n bwysig datblygu'r cynllun ar y cyd â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym wedi darparu enghreifftiau o gamau gweithredu i ddangos yr ystod eang o weithgareddau y gallem eu gwneud wrth weithredu'r ddyletswydd hon.

B. Pam nad oes dyletswydd statudol i gasglu data a / neu wella ei ansawdd? Sut bydd y gwaith o gasglu data ac ansawdd yn gwella o dan y Bil fel y'i drafftwyd?

Mae'r Bil yn cryfhau'r gofynion casglu data. Mae adran 7 yn gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer cael y cyfryw ddata ansawdd aer yng Nghymru fel y maent yn ystyried sy'n briodol i fonitro cynnydd tuag at gyrraedd targedau a osodir o dan adrannau 1 a/neu 2 o'r Bil. Rhaid cyhoeddi'r holl ddata a geir. Bydd hyn heb os yn gwella ansawdd, maint a thryloywder data ansawdd aer yng Nghymru.

Mae'r rhwydweithiau monitro ansawdd aer presennol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf asesu ac ansawdd data cadarn a nodir mewn deddfwriaeth. Mae gwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol hefyd yn cael ei ategu gan waith modelu ansawdd aer er mwyn cael darpariaeth ofodol ac amcangyfrif o'r ffynonellau llygredd sy'n cyfrannu.

Mae awdurdodau lleol yn rheoli ansawdd aer ar lefel leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol i fynd i'r afael â manau problemus lleol. Mae hyn yn cynnwys adolygu ansawdd aer drwy ystyried polisi statudol a chanllawiau technegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Pan nodir risgiau, gellir defnyddio gwaith monitro ansawdd aer i helpu i ddeall lefelau llygredd lleol, y ffynonellau, a chydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer lleol.

Nid yw'r rhan fwyaf o waith monitro awdurdodau lleol yn rhan o'r rhwydwaith monitro cenedlaethol gan eu bod yn cyflawni diben gwahanol, gan ganolbwyntio ar fannau problemus, ac oherwydd nad ydynt, o bosibl, yn bodloni meini prawf llym rhwydweithiau cenedlaethol ar gyfer lleoliad ac ansawdd data.

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

25 Mai 2023

Annwyl Julie,

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Diolch i chi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 15 Mai ar gyfer sesiwn dystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Bil yn llawn cyn inni adrodd i'r Senedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn erbyn 15 Mehefin.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Hygyrchedd

Cwestiwn 1: Ym mis Medi 2021, fe wnaethom argymhell yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Amgylchedd y dylai Bil amgylcheddol yn y dyfodol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion datganoledig ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU, ar ôl ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid. Gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. A allwch chi ddweud wrthym a yw'r Bil yn cynnwys materion sy'n berthnasol i Fil Amgylchedd y DU ac, os felly, sut y mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ein hadroddiad?

Cwestiwn 2: Yn y sesiwn dystiolaeth, gwnaed y sylwadau a ganlyn gennych chi a'ch swyddogion:

"it's a Bill that's intended to fit into other legislation—the attempt to do that in this Bill would have caused ripples across the other legislation in a way that was less than helpful and might actually make the Bill less accessible. So, I understand the sentiment of what you're saying entirely, but, as I understand it, you'd then have to look at the interaction between this and various environment Acts and so on, and then the ripples of that would start to go out and you'd start to be looking at a very different Bill." [Cofnod y Trafodion 37].

"in this case, the Bill has got a particular focus, and to carve out parts of the body of environmental law and put them elsewhere—our view is that that results in a partial retelling of the story about air quality, for legislation about air quality. You mentioned the Clean Air Act 1993; taking out Part 3 of that takes it out of its context with other Parts of that Act that are about air quality. So, yes, overall, the view was that it wouldn't improve accessibility of law in this instance to just take those bits out." [Cofnod y Trafodion 38]

"the environment Act ... is replete with Secretary of State for England things, which also then apply to Wales. So, it's quite complicated. I defer to the lawyers, and, actually, I'm in awe of who on earth worked their way through this." [Cofnod y Trafodion 46]

"It didn't seem necessary or optimal in any way to transfer the entire framework, only to say, 'It's exactly the same, apart from these little bits', really. So, it's part of the same conversation. We've been trying to limit the Bill that this committee is now scrutinising, and, obviously, the policy committees have scrutinised as well, to its own parameters. We've been very clear that it's not an all-encompassing Bill, and a lot of what you're talking about would stretch it back out into starting to take in a whole pile of other things. So, I'm afraid it's part of the same issue, isn't it?



And then, for me, there's a big issue about implementation, so do we have to spend the next two years doing consequential amendments before the thing is implementable? I didn't want to get into that. And also, you start to have what should be a fairly straightforward Bill taking up two thirds of the legal resource of the Welsh Government." [Cofnod y Trafodion 54]

- a. Sut mae'r sylwadau am hygyrchedd yn gyson â'r ffaith y bydd deddfwriaeth ar ansawdd aer yn awr yn cael ei nodi mewn un Ddeddf Gymreig a dwy Ddeddf sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr?
- b. Rydym yn aneglur pam na fanteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r Bil i ddiweddarau, gwella a symleiddio elfennau o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* ymwneud ag ansawdd aer er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Er enghraifft, mae Ansawdd Aer wedi'i gynnwys yn *Neddf yr Amgylchedd 1995* mewn 11 adran (Rhan 4 o'r Bil). Pam na ellid trosi'r darpariaethau hunangynhwysol hyn i'r Bil hwn a'u diweddarau lle bo angen?
- c. A gafodd y penderfyniad i beidio â chydgrynhai cyfraith ansawdd aer mewn un Bil ei ddylanwadu gan y cyfyngiadau capasiti ac adnoddau y gwnaethoch gyfrannu atynt?

Cwestiwn 3: O ystyried na chaniateir i reoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil gael eu gosod tan y Seithfed Senedd, pam na chyflwynwyd Bil amgylcheddol mwy hollgynhwysol a chynhwysfawr ar ansawdd aer tan yn ddiweddarach yn y Chweched Senedd, a allai fod wedi sicrhau canlyniadau gwell drwy ddeddfwriaeth sylfaenol a bod yn gyson ag amcan Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru?

Ansawdd aer – targedau cenedlaethol

Cwestiwn 4: A fydddech cystal â chrynhai'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar ansawdd aer, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth am y targedau ansawdd aer presennol a'r sail y'u gosodwyd arnynt?

Cwestiwn 5: Beth mae'r Bil hwn yn eich galluogi i'w gyflawni ar dargedau ansawdd aer na allwch ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol ansawdd aer presennol?

Cwestiwn 6: Sut bydd Rhan IV, Ansawdd Aer *Deddf yr Amgylchedd 1995* yn rhyngweithio ac yn gweithio gyda Rhan 1 o'r Bil? Yn benodol, sut y bydd adrannau 1 a 2 o'r Bil yn rhyngweithio ag adran 87 o Ddeddf 1995 (Rheoliadau at ddibenion Rhan IV)?

Cwestiwn 7: Mae Adran 1 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag *unrhyw fater* sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Pam bod angen pŵer mor eang?

Cwestiwn 8: Pam nad oes diffiniad o ansawdd aer ar wyneb y Bil?

Cwestiwn 9: Os yw ansawdd aer yn cael ei ystyried fel ystyr cyffredin, beth yw'r ystyr cyffredin hwnnw yn eich barn chi?

Cwestiwn 10: Er mwyn deall sut y *gellid* defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r canlynol:

- a. A oes unrhyw faterion yng Nghynllun Aer Glân Cymru na fyddent yn dod o dan y pŵer i wneud rheoliadau?
- b. Pa faterion, os o gwbl, y tu allan i Gynllun Aer Glân Cymru y gellid mynd i'r afael â nhw gan y pŵer i wneud rheoliadau?
- c. A oes unrhyw ddiwydiannau, cyrff neu safleoedd na allai fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1?
- d. A ellid defnyddio rheoliadau o dan adran 1 i reoli materion yn ymwneud ag ansawdd aer megis, er enghraifft, niwsans cyhoeddus neu arogleuon?

Cwestiwn 11: Pryd y bydd rheoliadau o dan adran 1 yn cael eu gosod gyntaf, a pham nad oes cyfnod terfyn ar gyfer gosod y set gyntaf o reoliadau (fel sydd ar gyfer rheoliadau o dan adran 2)?

Cwestiwn 12: Dywed adran 2(4) y gall rheoliadau sy'n pennu targed ansawdd aer PM2.5 wneud darpariaeth sy'n diffinio "aer amgylchynol". Pam mai dim ond i dargedau ansawdd aer PM2.5 y mae'r diffiniad hwn yn berthnasol a pham y caiff ei ddiffinio mewn rheoliadau yn hytrach nag ymddangos ar wyneb y Bil?

Ansawdd data

Cwestiwn 13: Yn y Memorandwm Esboniadol rydych yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid a allai ymdrin â gwella data ansawdd aer (paragraff 3.82).

- a. At ba gynlluniau cyflawni yr ydych yn cyfeirio a beth yw eu sail statudol?
- b. Pam nad oes dyletswydd statudol i gasglu data a / neu wella ei ansawdd? Sut bydd y gwaith o gasglu data ac ansawdd yn gwella o dan y Bil fel y'i drafftwyd?